

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020  
(Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021.

Julie Morgan  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Mehefin 2021

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Dod i Ben yn Gynnar: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021 yn dod â gweithrediad Rhan 2 o Atodlen 12 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru) ac adran 15 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (gofal a chymorth gan awdurdodau lleol) i ben yn gynnar, i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12 (y darpariaethau perthnasol).

Mae darpariaethau perthnasol Deddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") yn addasu dyletswyddau penodol awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion o dan Rannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

Mae dod â gweithrediad y darpariaethau hyn i ben yn gynnar yn golygu nad ydynt yn cael effaith yng Nghymru mwyach. Daeth rheoliadau sy'n atal Rhan 2 o Atodlen 12 ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau perthnasol i rym ar 22 Mawrth 2021<sup>1</sup>.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru**

Dim.

### **3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y pwerau a roddwyd gan adran 90(1) o Ddeddf 2020 sy'n darparu y caiff awdurdod cenedlaethol perthnasol, drwy reoliadau, ddod ymlaen â'r dyddiad y daw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2020 i ben.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae Rhan 2 o Atodlen 12 i Ddeddf 2020, ac adran 15 ohoni, i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12, yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i symleiddio trefniadau asesu a blaenoriaethu gofal cymdeithasol i oedolion, lle bo angen, yn fwy effeithiol nag y gallent ei wneud o dan eu dyletswyddau presennol o dan Ddeddf 2014 heb ei haddasu. Bwriad yr addasiadau oedd galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gofal brys ac aciwt yn ddi-oed yn ystod cyfnodau eithriadol. Er gwaethaf yr addasiadau a wnaed gan Ddeddf 2020, roedd gwahanol fesurau diogelu wedi aros yn eu lle o fewn Deddf 2014. Dechreuwyd y darpariaethau perthnasol ar 1 Ebrill 2020 ac fe'u hataliwyd ar 22 Mawrth 2021.

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Atal Dros Dro: Gofal a Chymorth gan Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/316 (Cy. 81)).

Diben y Rheoliadau hyn yw dod â gweithrediad y darpariaethau perthnasol yn Deddf 2020 i ben yn gynnar, i'r graddau y maent yn ymwneud ag oedolion a gofalwyr sy'n oedolion sy'n derbyn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae adran 89 o Ddeddf 2020 yn darparu ar gyfer dod â'r darpariaethau perthnasol i ben yn awtomatig ar 25 Mawrth 2022, oni bai eu bod yn cael eu hystyngwch neu eu cau'n gynnar gan Weinidogion Cymru. Effaith y Rheoliadau yw dileu'r opsiwn i ddefnyddio'r addasiadau (a ataliwyd dros dro gan Weinidogion Cymru ar 22 Mawrth 2021).

Ni fydd y Rheoliadau'n cael unrhyw effaith ymarferol ar awdurdodau lleol, oedolion sy'n derbyn gofal neu ofalwyr sy'n oedolion gan nad oes unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru wedi darparu gwasanaethau yn unol â darpariaethau addasedig Deddf 2014 pan oedd darpariaethau perthnasol Deddf 2020 mewn grym.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Awst 2021 a byddant yn dod â darpariaethau Rhan 2 o Atodlen 12 i ben yn gynnar ar wahân i baragraffau 30 a 33 a 35. Mae'r paragraffau hyn yn rhan o'r arbedion a'r darpariaethau trosiannol o fewn Deddf 2020 ac maent wedi'u heithrio'n benodol o'r pŵer i ddod â "darpariaethau" i ben gan adran 89(2)(r) ac felly ni ellir dod â hwy i ben. Mae hyn yn adlewyrchu'r natur drosiannol y gall y darpariaethau ei chwarae ar ôl unrhyw "gyfnod brys", gan gynnwys ar ôl i Ddeddf 2020 beidio â bod yn effeithiol.

Mae paragraff 31(1) yn egluro mai "cyfnod brys" yw unrhyw gyfnod pan fydd yr addasiadau a ddarperir gan Ran 2 o Atodlen 12 yn cael effaith. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru i gyd wedi cadarnhau nad oeddent mewn gwirionedd yn gweithredu yn unol â'r darpariaethau addasedig yn ystod y "cyfnod brys".

Mae paragraff 30 yn darparu y caiff awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol a chodi ffi yn ôl-weithredol am anghenion a ddiwellir gan ddefnyddio'r darpariaethau addasedig yn ystod y "cyfnod brys" lle na chafodd ffi ei chodi, neu lle cafodd ffi ostyngol ei chodi. Mae paragraff 33 yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer camau ôl-weithredol mewn perthynas â dyletswyddau o dan Ddeddf 2014 sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal a chymorth.

Mae paragraff 35 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol a chyfarwyddo awdurdodau lleol i roi sylw i'r canllawiau hynny ynghylch sut y maent i arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 pan fo addasiadau Deddf 2020 i'r dyletswyddau gofal cymdeithasol presennol o dan Ddeddf 2014 ar waith.

Gan na ddarparwyd unrhyw wasanaethau o dan y dyletswyddau addasedig pan oedd y darpariaethau perthnasol mewn grym, ni ddisgwylir unrhyw effaith andwyol nac anfantais i unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth o ganlyniad i eithrio paragraffau 30, 33 a 35 o'r cam i ddod i ben y mae'r Rheoliadau hyn yn effeithio arno.

## 5. Ymgynghori

Roedd Gweinidogion Cymru wedi nodi o'r dechrau mai addasiadau am gyfnod cyfyngedig fyddai'r rhain ac y byddent yn dod i ben cyn gynted ag y byddai modd i hynny ddigwydd.

Cyn gwneud y Rheoliadau a oedd yn atal y darpariaethau perthnasol, cynhaliwyd adolygiad cyflym am bedair wythnos a chyhoeddwyd ffurflen ymateb ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru rhwng 5 Hydref a 2 Tachwedd 2020. Ysgrifennodd swyddogion hefyd at randdeiliaid ar draws y sector gofal cymdeithasol yn gwahodd eu barn ar atal y darpariaethau perthnasol neu barhau i'w gweithredu.

Ymysg y rhai y cysylltwyd â hwy roedd:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cadeirydd Cynghair Henoed Cymru (sy'n cynnwys cyrff gofalwyr di-dâl)
- Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Aelodau'r Fforwm Anabledd a Chydraddoldeb
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Rheolwyr Busnes y Bwrdd Diogelu
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Roedd cefnogaeth glir (65%) i atal gweithrediad y darpariaethau perthnasol. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i barhau i weithredu'r darpariaethau, roedd eu hatal yn ymateb cadarnhaol i adroddiadau ac argymhellion gan ystod eang o randdeiliaid. Roedd nifer o ymatebion hefyd yn pwysu am ddiddymu'r darpariaethau neu ddod â hwy i ben yn gynnar. Roedd y rhain yn adlewyrchu sylwadau tebyg gan gynnwys rhai gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru<sup>2</sup>. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>3</sup>.

## 6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r angen am y Rheoliadau wedi'i nodi fel rhan o'r gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer problemau a allai godi yn sgil lledaeniad COVID-19.

---

<sup>2</sup> [Adroddiad amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig](#)

<sup>3</sup> [Deddf y Coronafeirws 2020 a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Deddf 2014 yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol i asesu a diwallu'r anghenion am ofal cymdeithasol a chymorth i bobl o fewn eu ffiniau. Diben y Rheoliadau hyn yw dileu'r potensial i awdurdodau lleol weithredu o dan addasiadau i'r dyletswyddau presennol hynny a gynhwysir yn Neddf 2020 ac felly ni fyddant yn arwain at gostau na beichiau ychwanegol. Bydd unrhyw addasiadau neu ddiwygiadau sy'n ofynnol i arferion gwaith yn ymwneud ag ailsefydlu'r arferion a oedd yn bodoli cyn y pandemig, heb ei haddasu oherwydd cyfyngiadau ehangach ar iechyd y cyhoedd megis cadw pellter cymdeithasol. Cyhoeddwyd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2014, ynghyd â'r rheoliadau a'r codau ymarfer cysylltiedig, i gyd-fynd â Deddf 2014.

Mae anghenion busnesau yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd wedi'u hystyried wrth baratoi'r Rheoliadau ac ni nodwyd unrhyw feichiau na chostau ychwanegol.

## 7. Profion effaith penodol

### Y Gymraeg

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

### Hawliau Plant

Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc. Dewisodd Gweinidogion Cymru gyfyngu'r addasiadau posibl a ddarperid gan Ddeddf y Coronafeirws 2020 i'r darpariaethau ar gyfer oedolion yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn unig. Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Deddf 2014 i gyd-fynd â'r Ddeddf honno a'r dogfennau cysylltiedig.

### Preifatrwydd

Nid oes goblygiadau o ran effaith ar faterion preifatrwydd.

### Asesiad Cystadleuaeth

Prawf hidlo cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	Nac ydynt
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar gynaliadwyedd rhai cwmnïau yn fwy nag eraill?	Na fyddai

<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydyw
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector?	Nac oes
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	Na fyddai

Mae'r prawf hidlo yn dangos nad yw'n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. O'r herwydd, ni chynhaliwyd asesiad manwl.